



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

## **DEDDF ADEILADU 1984**

### **Diwygiadau i'r Ddogfen Gymeradwy sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith)**

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i dynnu'ch sylw at y diwygiadau i'r Ddogfen Gymeradwy sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith) a fydd yn dod yn weithredol yng **Nghymru** o 1 Medi 2013 ymlaen.
2. Cymeradwywyd a chyhoeddwyd y diwygiadau gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer y pwerau yn Neddf Adeiladu 1984.
3. Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at y diwygiadau hynny a datgan bod y Ddogfen Gymeradwy ddiwygiedig sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith) wedi'i chyhoeddi ar gyfer **Cymru**.
4. Nid yw'r Cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar ofynion technegol y Rheoliadau Adeiladu, a hynny am mai'r Ddogfen Gymeradwy ei hun sy'n ymdrin â'r materion hynny.
5. Diwygiwyd y Ddogfen Gymeradwy er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Rheoliad Ewropeaidd (UE) 305/2011, sy'n ymdrin â chynhyrchion adeiladu, bellach wedi'i weithredu'n llawn.
6. Yn Atodiadau A a B, darperir "Hysbysiadau cymeradwyo" a "Hysbysiadau dileu cymeradwyaeth" ar gyfer y Ddogfen Gymeradwy sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith).

### **DARPARIAETHAU TROSIANNOL**

7. Bydd y Ddogfen Gymeradwy fel y'i diwygiwyd yn dod i rym ar 1 Medi 2013 ac eithrio mewn cysylltiad â gwaith a fydd wedi dechrau cyn y dyddiad hwnnw, ac mewn cysylltiad â gwaith, er na fydd wedi dechrau, y bydd corff rheoli adeiladu wedi cael gwybod amdano cyn y dyddiad hwnnw.

### **NEWIDIADAU I'R DOGFENNAU CYMERADWY**

8. Caiff Dogfennau Cymeradwy eu cyhoeddi er mwyn rhoi arweiniad ymarferol ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd yr argraffiad blaenorol o Ddogfennau Cymeradwy i ategu rheoliad 7 yn cael ei dynnu'n ôl a bydd yn peidio â bod yn weithredol ar 1 Medi 2013.
9. Mae slip diwygiadau, *Diwygiadau i'r Dogfennau Cymeradwy*, yn cael ei gyhoeddi hefyd ac mae'n rhestru'r diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy A, B1, B2, C, D, E, F, G, H, J, K, L1A, L1B, L2A, L2B, M, N a P er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddogfen Gymeradwy ddiwygiedig sy'n ategu rheoliad 7.

## **YMHOLIADAU**

10. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car,  
Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144

E-bost [Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk](mailto:Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk).

Yn gywir

**Francois Samuel**  
**Pennaeth Rheoliadau Adeiladu**

Atodiad A

Deddf Adeiladu 1984

**HYSBYSIAD CYMERADWYO DOGFEN AT DDIBENION RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNIION RHEOLIADAU ADEILADU 2010**

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y cyfryw bwerau o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r dogfennau a restrir isod at ddibenion rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng **Nghymru** yn unig. Mae'r gymeradwyaeth honno'n dod yn weithredol fel y rhestrir yn y tabl isod mewn cysylltiad â gwaith a fydd wedi dechrau cyn y dyddiad hwnnw, a hefyd mewn cysylltiad â gwaith, er na fydd wedi dechrau, y bydd corff rheoli adeiladu wedi cael gwybod amdano cyn y dyddiad hwnnw.

<b>Dogfen</b>	<b>Y ddarpariaeth yn y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen mewn cysylltiad â hi</b>	<b>Y dyddiad y bydd y diwygiad yn dod yn weithredol</b>
Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith)(2013)	Rheoliad 7	1 Medi 2013
Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy A, B1, B2, C, D, E, F, G, H, J, K, L1A, L1B, L2A, L2B, M, N a P	Rheoliad 4 a Rhannau A, B1, B2, C, D, E, F, G, H, J, K, L1A, L1B, L2A, L2B, M, N a P o Atodlen 1	1 Medi 2013

## Atodiad B

Deddf Adeiladu 1984

### **HYSBYSIAD DILEU CYMERADWYAETH A RODDWDYD I DDOGFFEN AT DDIBENION RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010**

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y cyfryw bwerau o dan adran 6, wedi dileu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r dogfennau a restrir isod at ddibenion rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diygiwyd). Bydd y dileu hwnnw'n dod yn weithredol fel y rhestrir yn y tabl isod mewn cysylltiad â gwaith a fydd wedi dechrau cyn y dyddiad hwnnw, a hefyd mewn cysylltiad â gwaith, er na fydd wedi dechrau, y bydd corff rheoli adeiladu wedi cael gwybod amdano cyn y dyddiad hwnnw

<b>Dogfen</b>	<b>Y gofyniad yn y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen mewn cysylltiad â hi</b>	<b>Y dyddiad y bydd y dileu yn dod yn weithredol</b>
Dogfen Gymeradwy sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chrefftwaith) (argraffiad 1999 sy'n cynnwys diwygiadau 2000)	Rheoliad 7	1 Medi 2013

### **Cyhoeddiadau**

Mae'r Ddogfen Gymeradwy sy'n ategu rheoliad 7 (Deunyddiau a Chrefftwaith) (2013) ar gyfer Cymru i'w gweld ar:

[www.porthcynllunio.gov.uk](http://www.porthcynllunio.gov.uk)